

Cynnydd ar argymhellion blaenorol

Argymhelliad blaenorol	Camau a gymerwyd a'r effaith	Categoreiddio	Angen gwelliant o hyd?
<i>O arolygiadau blaenorol y Gwasanaeth Prawf</i>	<i>Disgrifiwch yn fyr y camau a gymerwyd a'r effaith</i>	<i>Cynnydd digonol/ Rhywfaint o Gynnydd/ Dim Cynnydd</i>	<i>Oes/Nac oes Os oes, ystyriwch ailadrodd yr argymhelliad</i>
Gwella ansawdd y gwaith i asesu, cynllunio ar gyfer, rheoli ac adolygu'r risg o niwed	Cam gweithredu - Ymgorffori calendr PDU o ddigwyddiadau datblygu ansawdd yn unol â'r Strategaeth Ymarfer Effeithiol Ranbarthol i gefnogi ffocws lleol ar ansawdd. - Ymgorffori proses sefydlu PDU amlasiantaeth ym mis Mawrth 2022 ar gyfer pob aelod o staff newydd, a'r rhai sydd wedi ymuno â'r gwasanaeth ers mis Mawrth 2020. - Defnyddio staff i arbenigo mewn gweithgarwch datblygu ansawdd, gan ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd a datblygu aelodau staff trwy ystod o weithgareddau. - Cyflwynwyd Setiau Dysgu Gweithredol ar draws y PDU i gefnogi dysgu rhwng cymheiriaid mewn perthynas â risg o niwed difrifol. - Ailgyflwynwyd sesiynau sefydlu wyneb yn wyneb i bawb ar brawf o fis Rhagfyr 2021 i hyrwyddo asesiadau a chynlluniau gwell. - Mesurodd Gwasanaeth Prawf Cymru a PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot effaith y gweithgareddau uchod drwy'r PDU a gweithgareddau ledled y rhanbarth yn y Strategaeth Ymarfer Effeithiol ar gyfer 2022/2023. Effaith	Rhywfaint o gynnydd	Oes

	Yn ein harolygiad o waith achos, roedd y sgoriau cyffredinol ar gyfer parth dau yn annigonol. Fe wnaeth cadw pobl yn ddiogel ostwng y sgôr gyffredinol ar draws ASPIRE.		
Gwella effeithiolrwydd sicrhau ansawdd a goruchwyliaeth rheolwyr o'r holl waith achos	Cam gweithredu - Ailstrwythurwyd timau rheoli dedfrydau ac roedd mwy o adnoddau ar gyfer Uwch Swyddog Prawf (SPO) i leihau meintiau timau er mwyn cefnogi lefelau uwch o oruchwyliaeth rheolwyr dros waith achos. - Gweithredwyd canolfan gydlynw rheoli i ryddhau SPOs rhag tasgau gweinyddol er mwyn cynyddu'r amser sydd ar gael i reolwyr oruchwyllo gwaith achos. - Cynhaliwyd 'diwrnod ailosod' arweinyddiaeth gyda SPOs, gan ganolbwyntio ar ailosod disgwyladau ymarfer wrth i gyfyngiadau Covid-19 lacio, ar y cyd â Modelau Cyflenwi Eithriadol Cenedlaethol (EDMs). - Gweithredwyd fframwaith cydlofnodi diwygiedig gyda ffocws ar ddefnyddio'r offeryn Sicrwydd Ansawdd Asesu (AQA) i wella ansawdd asesu ac adolygiadau. - Defnyddiwyd staff i arbenigo mewn gweithgarwch datblygu ansawdd yn y PDU, gan ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd a datblygu aelodau staff trwy ystod o weithgareddau. Effaith - Canfu ein harolygiad o waith achos fod ansawdd goruchwyliaeth reolwyr yn parhau i fod yn annigonol ar y cyfan.	Rhywfaint o gynnydd	Oes
Sicrhau bod yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i wella	Cam gweithredu	Rhywfaint o gynnydd	Oes

Ymatal a lleihau aildroseddu a risg o niwed yn cael eu darparu ym mhob achos.	• Cynyddwyd cyflenwi Gwaith Di-dâl drwy gyflwyno prosesau newydd ar gyfer cwblhau Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE), a gweithredu Prosiectau Gweithio Annibynnol. Cafodd perfformiad y ddau ei olrhain drwy gyfarfodydd misol dan gadeiryddiaeth Pennaeth y tîm Gweithredol, Ailsefydlu, Atgyfeirio a Gwerthuso Canolog (CORRE), Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl. • Cynyddwyd adnoddau mewn darparu Gwaith Di-dâl trwy recriwtio goruchwylwyr ychwanegol, gan ddefnyddio cyllid ychwanegol. • Ail-lansiwyd pecynnau cymorth cymeradwy a oedd yn cynnwys briffiau i gefnogi datblygu sgiliau staff, ochr yn ochr â gweithredu offeryn sicrwydd i fonitro'r defnydd o becynnau cymorth fel dewis arall yn lle cyflwyno rhaglenni lle bo angen. • Cynyddwyd adnoddau wrth gyflwyno'r rhaglen drwy recriwtio hwyluswyr ychwanegol gan ddefnyddio cyllid cenedlaethol ychwanegol. • Mae cyflenwi Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynwyd (CRS) ar draws y PDU wedi'i ymgorffori i sicrhau bod pob person perthnasol sydd ar brawf yn cael ei gyfeirio at y gwasanaeth perthnasol ac yn ei dderbyn. Mae cyfrolau atgyfeiriadau yn cael eu holrhain gan Bennaeth Rheoli Contractau a Phennaeth CORRE, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl. Effaith • Ar adeg cyhoeddi'r arolygiad, yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot roedd canran y gofynion gwaith di-dâl gydag oriau heb eu cwblhau y tu hwnt i 12 mis yn isel, ac mae wedi gostwng ymhellach dros y ddau fis diwethaf, o 6.32 y cant i 4.31 y cant. Roedd hyn yn is na'r cyfartaledd rhanbarthol.		
--	--	--	--

	• Ar adeg cyhoeddi'r arolygiad, roedd cyfraddau cwblhau ar gyfer rhaglenni achrededig wedi aros yn sefydlog dros y 12 mis blaenorol, fodd bynnag, roedd angen gwella cwblhau rhaglenni heblaw am ar gyfer unigolion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol. Ym mis Mawrth 2025, roedd y gyfradd ar gyfer rhaglenni achrededig ar gyfer unigolion a gafwyd yn euog o drosedd rhyw yn 82 y cant, o'i gymharu ag 85 y cant yn y 12 mis blaenorol. Roedd y gyfradd ar gyfer rhaglenni heblaw'r rhai ar gyfer unigolion a gafwyd yn euog o drosedd rhyw yn 47 y cant, o'i gymharu â 44 y cant yn y 12 mis blaenorol. Roedd y ddau hyn yn uwch na'r cyfraddau cwblhau rhanbarthol. • Canfu ein harolygiad o waith achos fod gwasanaethau'n cael eu darparu a fyddai'n lleihau aildroseddu neu'n cefnogi ymatal mewn rhy ychydig o achosion (57 y cant), er i ni weld gwell cyflenwi gwasanaethau'n canolbwyntio ar adeiladu cryfderau a ffactorau amddiffynnol y person ar brawf (65 y cant). Fe wnaethon ni ganfod mewn ychydig dros ddwy ran o dair o achosion perthnasol (31 o 45) fod Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisiynwyd wedi'u cynnig. Gwelodd arolygwyr hefyd ddosbarthu pecynnau cymorth.		
Sicrhau bod gan staff sy'n gyfrifol am oruchwyllo rheoli achosion y sgiliau, y wybodaeth a'r amser i ymgymryd â'r gwaith yn effeithiol	Cam gweithredu • Ailstrwythurwyd timau rheoli dedfrydau, a chynyddwyd adnoddau SPO i leihau meintiau timau i gefnogi lefelau uwch o oruchwyliaeth rheolwyr o waith achos. • Gweithredwyd canolfan gydlynwyr rheoli i ryddhau SPOs rhag tasgau gweinyddol er mwyn cynyddu'r amser sydd ar gael i reolwyr oruchwyllo gwaith achos.	Rhywfaint o gynnydd	Oes

	• Cafodd y Model Touchpoints (model y Gwasanaeth Prawf ar gyfer goruchwyliaeth reolwyr) a'r Sesiynau Goruchwyllo Ymarfer Myfyriol eu hadnewyddu. • Cynhaliwyd diwrnod ailosod arweinyddiaeth gyda SPOs, gan ganolbwyntio ar ailosod disgwyliadau ymarfer wrth i gyfyngiadau Covid-19 lacio, ar y cyd â EDMs. • Lansiodd pecyn sefydlu ar gyfer SPOs yn canolbwyntio ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi goruchwyliaeth reoli effeithiol. • Gweithredwyd fframwaith cydlofnodi diwygiedig gyda ffocws ar ddefnyddio'r offeryn Sicrwydd Ansawdd Asesu (AQA) i wella ansawdd asesu ac adolygiadau. Effaith • Canfu ein harolygiad o waith achos fod ansawdd goruchwyliaeth reolwyr yn parhau i fod yn annigonol.		
Archwilio'r rhesymau dros waith achos gwell yn yr achosion hynny ar drwydded ôl-ryddhau a defnyddio'r dysgu hwn i wella effeithiolrwydd mewn mannau eraill	Cam gweithredu • Adolygwyd detholiad o achosion perthnasol o sampl achosion Prawf EF i archwilio'r gwahaniaethau rhwng achosion cosb gymunedol ac achosion trwydded ôl-ryddhau. • Cynhaliwyd trafodaethau grŵp ffocws gydag aelodau staff perthnasol i archwilio'r gwahaniaethau ymhellach. • Cynhyrchwyd crynodeb o'r canfyddiadau, a ddefnyddiwyd i ddylanwadu ar y Strategaeth Ymarfer Effeithiol ar gyfer 2022/2023. Effaith	Cynnydd digonol	Nac oes

	• Canfu ein harolygiad o waith achosion, ar draws saith allan o'r 12 cwestiwn allweddol, fod achosion trwydded ôl-ryddhau wedi sgorio'n well nag achosion gorchmynion cymunedol. Roedd gwahaniaethau bach mewn rhai cwestiynau allweddol. • Canfu ein harolygiad o waith achos, ar draws ein safonau, fod ansawdd y gwaith i ymgysylltu â phobl ar brawf ar draws asesu, cynllunio a chyflawni'r ddedfryd yn well i bobl sy'n destun gorchymyn o fewn y gymuned na phobl a ryddhawyd ar drwydded. • Canfu ein harolygiad o waith achos, ar draws ein safonau, fod ansawdd y gwaith i gadw pobl yn ddiogel ar draws cynllunio a'r gwaith i gyflawni'r ddedfryd yn well ar gyfer pobl a ryddhawyd ar drwydded nag ar gyfer pobl sy'n destun gorchymyn o fewn y gymuned.		
Archwilio'r rhesymau dros waith achos gwaeth yn yr achosion hynny a aseswyd fel risg ganolig o niwed, o'i gymharu â'r rhai a aseswyd fel risg isel neu uchel/uchel iawn o niwed, a defnyddio'r dysgu hwn i wella ansawdd y gwaith a gyflawnir ar gyfer achosion risg ganolig.	Cam gweithredu • Blaenoriaethodd ac ailddechreuodd Pennaeth y PDU arsylwadau ymarfer ar gyfer achosion risg ganolig yn dilyn ailagor swyddfa brawf Abertawe Castell-nedd Port Talbot. • Adolygwyd detholiad o achosion perthnasol o sampl achosion Prawf EF i archwilio'r gwahaniaethau rhwng achosion risg ganolig a risg uchel/uchel iawn. • Cynhaliwyd trafodaethau grŵp ffocws gydag ymarferwyr prawf ac SPOs i archwilio'r gwahaniaethau ymhellach. • Cynhyrchwyd crynodeb o'r canfyddiadau, a ddefnyddiwyd i ddylanwadu ar y Strategaeth Ymarfer Effeithiol ar gyfer 2022/2023. Effaith	Cynnydd digonol	Nac oes

	Canfu ein harolygiad o waith achosion fod ansawdd y gwaith gyda'r rhai sy'n cynrychioli risg ganolig o niwed difrifol yn fwy cyson â'r hyn a ddangoswyd mewn achosion risg uchel ac uchel iawn o niwed.		
--	---	--	--